



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## Hysbysiad tystiolaeth – ymchwiliad i fethiant posib i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

---

### 1. Rhif achos

CSG470

### 2. Enw'r person y rhoddir yr hysbysiad tystiolaeth iddo

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

### 3. Dyddiad rhoi'r hysbysiad tystiolaeth

06/02/2019

### 4. Tystiolaeth y gofynnir amdani

1. Darparwch wybodaeth yn cynnig amlinelliad o gefndir yr hyn a arweiniodd at y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre.
2. Darparwch wybodaeth am y broses y gwnaeth y Cyngor ei dilyn wrth wneud y penderfyniad polisi i gau'r ysgol gan gyfeirio at unrhyw gamau i gymeradwyo'r cynnig cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad.
3. Eglurwch sut aeth y Cyngor ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y penderfyniad i gau'r ysgol.
4. Darparwch gopïau o'r dogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Gofynnaf i chi ddarparu copïau Cymraeg a Saesneg. Cyfeiriwch at yr adrannau hynny oedd yn ymwneud ag asesu effaith y penderfyniad ar y Gymraeg ac unrhyw gwestiynau perthnasol a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.
5. Eglurwch sut gwnaeth y Cyngor sicrhau bod y wybodaeth a'r dogfennau cysylltiedig oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a'u bod yr un mor hygyrch i'r cyhoedd.
6. Darparwch restr o'r dogfennau a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad gan nodi os oedd y dogfennau ar gael ar y tudalennau Cymraeg a Saesneg yr un pryd.

7. Cadarnhewch a oedd copi o ddogfen Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi ei chynnwys gyda gweddill y dogfennau ymgynghori ar wefan y Cyngor. Nodwch a oedd y ddogfen i'w gweld ar y dudalen Gymraeg a Saesneg y wefan drwy gydol y cyfnod ymgynghori.
8. Mae'r achwynydd yn honni bod y bylchau oedd wedi eu darparu yn y ffurflen ymateb er mwyn ysgrifennu sylwadau yn llai ar y fersiwn Gymraeg nac ar y fersiwn Saesneg. Cadarnhewch a ydy'r honiadau hyn yn gywir gan egluro rhesymau pam ei bod yn ymddangos bod y bylchau ar y fersiwn Gymraeg yn llai na'r fersiwn Saesneg.
9. Eglurwch y camau a gymrodd y Cyngor i asesu pa effaith os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad i gau yr ysgol yn ei gael ar –
  - (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
10. Darparwch unrhyw gofnod o'r ystyriaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 9 ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd i ystyried sut y gellir llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar –
  - (a) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
11. Darparwch unrhyw gofnod o'r ystyriaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 9 ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd i ystyried sut y gellir llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -
  - (a) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
12. Esboniwch sut mae'r Cyngor wedi ceisio barn ar y penderfyniad i gau'r ysgol ynghylch yr effeithiau y byddai'r newidiadau yn eu cael ar -
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
13. Esboniwch sut mae'r Cyngor wedi ceisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar -
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
14. Esboniwch sut mae'r Cyngor wedi ceisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
15. Eglurwch y camau a gymrodd y Cyngor i asesu pa effaith os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad i gau'r ysgol yn ei cael ar gyfleoedd y Cyngor i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Gymraeg.

16. Eglurwch pa brosesau oedd mewn lle i dderbyn, ystyried ac ymateb i sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Darparwch gopi o gofnodion unrhyw drafodaethau a fu wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd.
17. Darparwch wybodaeth ynghylch unrhyw fethodoleg arall a ddefnyddiodd y Cyngor i ystyried effeithiau, os o gwbl, ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad polisi i gau'r ysgol.
18. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei hystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
19. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

## 5. Ffur y dystiolaeth

Dylid anfon y dystiolaeth yn ysgrifenedig, mewn dogfennau electronig, at [ymchwilioagorfodi@comisiynyddygydraeg.cymru](mailto:ymchwilioagorfodi@comisiynyddygydraeg.cymru).

## 6. Amserlen

Dylid darparu'r dystiolaeth o fewn 15 diwrnod gwaith, sef erbyn 27/02/2019.

## 7. Cyfyngiadau ac apelau

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth y gwaherddir ei datgelu yn rhinwedd deddfiad, ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol gwneud unrhyw beth na allai'r Cyngor gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

Rhaid i'r Cyngor ddiystyru'r hysbysiad, a rhoi gwybod i'r Comisiynydd, pe bai cydymffurfio â'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cudd-wybodaeth.

Gall y Cyngor wneud cais i Dribiwnlys y Gymraeg i ddileu'r hysbysiad ar y sail fod gofyniad a osodir ynddo'n ddiangen o ystyried pwrpas yr ymchwiliad, yn afresymol neu'n anghymesur mewn modd arall, neu'n annymunol am resymau diogelwch gwladol.

## 8. Gorfodi

Os yw'r Comisiynydd o'r farn fod person sydd wedi derbyn hysbysiad tystiolaeth wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad tystiolaeth heb esgus rhesymol, neu fod hynny'n debygol o ddiwydd, gellir gwneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â'r hysbysiad.